

Cyfeirnod: IR885

Dyddiad cyhoeddi: 31 Awst 2023

Archwilio Cymru – Defnydd Papur

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch e-bost dyddiedig 3 Awst 2023 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am ddefnydd papur.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol:

Beth yw'r defnydd o bapur ar draws y sefydliad yn y flwyddyn ariannol ddiweddaraf - mae hyn yn cynnwys argraffu a defnyddio ffurflenni papur. Os yw'n ddigon manwl, gellir rhannu'r rhain yn swyddfeydd / eiddo penodol.

Defnyddiodd Archwilio Cymru 115 o drawstiau yn 2022-23 o'i gymharu â 270 yn 2021-22. Dim ond ar lefel y sefydliad y byddwn yn cofnodi'r wybodaeth hon, yn hytrach nag ar lefel unigol y swyddfa/eiddo. Gan ein bod yn weddol fach o ran maint, gallwn adnabod tueddiadau defnydd yn hawdd mewn swyddfa benodol—dim ond tair swyddfa sydd gennym. Gall fod yn ddefnyddiol os sylwaf fod defnydd papur wedi gostwng yn sylweddol o tua 3,500 o drawstiau yn 2015.

Os nad oes data yn cael ei gadw - beth yw uchelgais y sefydliad o ran defnydd papur, oes uchelgais i ddod yn ddi-bapur?

Data fel uchod. Gan ein bod wedi lleihau'r defnydd o bapur yn sylweddol gan wneud gwelliannau parhaus, nid yw ein targedau bellach yn nodi swm gostyngiad sefydlog. Rydym yn parhau i anelu at gynyddu'r defnydd o sganio ac archifo electronig trwy dechnoleg newydd, ac rydym yn parhau i hyrwyddo lleihau papur a lleihau gwastraff cysylltiedig. Er ein bod yn llawer agosach at amgylchedd di-bapur nag yr oeddem ychydig flynyddoedd yn ôl, o ystyried natur ein gwaith, ni fyddai'n realistig bod yn gwbl ddi-bapur.

A oes gennych unrhyw bolisiâu sy'n ymwneud â phapur, ffurflenni neu ddefnydd argraffu yn y sefydliad a beth maen nhw'n ei nodi?

Nid oes gennym bolisi penodol *per se*. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i brynu papur a deunydd ysgrifennu wedi'i ailgylchu. Rydym yn defnyddio trwyddedau Adobe Pro i atal yr angen i argraffu adroddiadau mawr. Mae ein tîm arweinyddiaeth gweithredol yn cynnal cyfarfodydd di-bapur. Mae ein trefniadau anfonebu a throsglwyddo yn electronig, ac rydym yn gwneud defnydd helaeth o Teams a SharePoint ar gyfer rhannu dogfennau, ac ati.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth